**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 761 (Cy.65)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Effaith gyffredinol darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("y Ddeddf") yw rhoi nifer o swyddogaethau newydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Effaith fwyaf arwyddocaol y swyddogaethau newydd yw mai'r Archwilydd Cyffredinol, pan fydd y Ddeddf mewn grym yn llwyr, fydd yn arfer y rhan fwyaf o'r swyddogaethau a arferir ar hyn o bryd yng Nghymru gan y Comisiwn Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr ("y Comisiwn Archwilio").

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ganlyniad i'r newid hwnnw. Maent yn diwygio pum set o Reoliadau ym maes addysg, dwy set o ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a dwy set ym maes llywodraeth leol.

Yn y maes addysg, mae rheoliadau 3, 8, 9 a 10 yn diwygio'r gofynion, a osodir yn yr is-ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd, ar gyfer ardystio grantiau. Ym mhob achos, mae'r diwygiadau'n darparu, o ran Cymru, y gwneir yr ardystio o hyn ymlaen gan archwilydd a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn hytrach na chan y Comisiwn Archwilio), neu gan archwilydd cymwys ar gyfer penodiad o'r fath.

Mae'r ddarpariaeth sy'n weddill o ran y maes addysg, rheoliad 5, yn darparu bod adroddiadau o arolygiadau awdurdodau addysg lleol yng Nghymru a gyflawnir o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 (fel y'i diwygiwyd) i'w hanfon at Archwilydd Cyffredinol

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 761 (W.65)

# PUBLIC AUDIT, WALES

## The Public Audit (Wales) Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The general effect of the provisions of the Public Audit (Wales) Act 2004 ("the Act") is to confer a number of new functions on the Auditor General for Wales. The most significant effect of the new functions is that the Auditor General will, from the coming into force of this Order, exercise most of the functions currently exercised in Wales by the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales ("the Audit Commission").

The amendments made by these Regulations are consequential upon that change. They amend five sets of Regulations in the education field, two sets relating to the National Health Service, and two in the local government field.

In the field of education, regulations 3, 8, 9 and 10 amend the requirements, laid down in the subordinate legislation amended, for the certification of grants. In each case, the amendments provide that, in relation to Wales, certification is henceforward to be done by an auditor appointed by the Auditor General for Wales (rather than by the Audit Commission), or an auditor qualified for such appointment.

The remaining provision concerning the education field, regulation 5, provides that reports of inspections of local education authorities in Wales carried out under section 38 of the Education Act 1997 (as amended) are to be sent to the Auditor General for

Cymru, yn hytrach nag at y Comisiwn Archwilio.

Mae rheoliadau 2 a 6 yn ymwneud â materion ynglŷn â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae rheoliad 2 yn ymwneud â'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol gynnal cyfarfod cyhoeddus. Mae'n parhau'r sefyllfa bod yn rhaid cynnal cyfarfod pan fo ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn derbyn adroddiad buddiant cyhoeddus oddi wrth ei archwilydd. O ganlyniad i'r Ddeddf, gwneir yr adroddiadau hynny, o 1 Ebrill 2005 ymlaen, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn hytrach na chan y Comisiwn Archwilio. Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 yn adlewyrchu hyn.

Mae rheoliad 6 yn darparu, pan fydd cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymrwymo mewn trefniadau cronfa gyfun o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000, y dylai cyfrifon y gronfa gyfun gael ei harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn hytrach na chan y Comisiwn Archwilio.

Diwygir yr is-ddeddfwriaeth ym maes llywodraeth leol gan reoliadau 4 a 7.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r diffiniad o "the auditor" yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997. Effaith y diwygiad yw, ar gyfer cyrff sy'n awdurdodau lleol at ddibenion y Rheoliadau hynny, ac sydd hefyd yn gyrff llywodraeth leol yng Nghymru at ddibenion adran 12 o'r Ddeddf, ystyr "the auditor" yw'r archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 13 o'r Ddeddf. Mae hyn yn cael effaith ar y gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol penodol eu cyflawni er mwyn i gontract y maent yn ymrwymo iddo fod yn gontract ardystio o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.

Mae rheoliad 7 yn ychwanegu Archwilydd Cyffredinol Cymru at y rhestr o bersonau y caniateir i swyddogion monitro awdurdod lleol ddatgelu gwybodaeth iddo at ddibenion penodol, o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Wales, rather than to the Audit Commission.

Regulations 2 and 6 deal with matters related to the National Health Service.

Regulation 2 concerns the circumstances in which a National Health Service trust in Wales must hold a public meeting. It maintains the position that a meeting must be held where a National Health Service trust receives a public interest report from its auditor. As a consequence of the Act, such reports will, from 1 April 2005, be made by the Auditor General for Wales, rather than the Audit Commission. The amendments made by regulation 2 reflect this.

Regulation 6 provides that, where National Health Service bodies and local authorities in Wales enter into pooled fund arrangements under the National Health Service Bodies and Local Authorities Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2000, the accounts of the pooled fund should be audited by the Auditor General for Wales, instead of the Audit Commission.

Amendments to subordinate legislation in the field of local government are made by regulations 4 and 7.

Regulation 4 amends the definition of "the auditor" in the Local Authorities (Contracts) Regulations 1997. The effect of the amendment is that, for bodies which are local authorities for the purposes of those Regulations, and are also local government bodies in Wales for the purposes of section 12 of the Act, "the auditor" means the auditor appointed by the Auditor General for Wales under section 13 of the Act. This impacts on the requirements which certain of those local authorities must fulfil in order for a contract into which they enter to be a certified contract under the Local Government (Contracts) Act 1997.

Regulation 7 adds the Auditor General for Wales to the list of persons to whom local authority monitoring officers are allowed to disclose information for certain purposes, under the Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 761 (Cy.65)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

*Wedi'u gwneud* — *15 Mawrth 2005*

*Yn dod i rym* — *1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan y deddfiadau a bennir yn yr Atodlen i'r offeryn hwn, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

**Diwygio is-ddeddfwriaeth**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfarfodydd Cyhoeddus) 1991(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 -

(a) ym mharagraff (a), ar ôl y geiriau "NHS trust", mewnosoder "all or most of whose hospitals, establishments and facilities are situated in England";

(b) ar ôl y paragraff hwnnw, mewnosoder -

" (aa) the circumstances in which an NHS trust all or most of whose hospitals, establishments and facilities are situated in Wales shall hold a public meeting are those where it has received a report made under the provisions of section 96A of the Government of Wales Act 1998;".

(**1**) O.S. 1991/482, fel y'i diwygiwyd gan adran 54(2) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 a pharagraff 4(1) o Atodlen 4 iddi, (p. 18).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 761 (W.65)

# PUBLIC AUDIT, WALES

## The Public Audit (Wales) Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2005

*Made* — *15 March 2005*

*Coming into force* — *1 April 2005*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by the enactments specified in the Schedule to this instrument, hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Public Audit (Wales) Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2005 and come into force on 1 April 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales only.

**Subordinate legislation amended**

**2**.-(1) The National Health Service Trusts (Public Meetings) Regulations 1991(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 3 -

(a) in paragraph (a), after the words "NHS trust", insert "all or most of whose hospitals, establishments and facilities are situated in England";

(b) after that paragraph, insert -

"(aa) the circumstances in which an NHS trust all or most of whose hospitals, establishments and facilities are situated in Wales shall hold a public meeting are those where it has received a report made under the provisions of section 96A of the Government of Wales Act 1998;".

(**1**) S.I. 1991/482, as amended by section 54(2) of, and paragraph 4(1) of Schedule 4 to, the Audit Commission Act 1998 (c. 18).

**3**.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Grantiau) (Teithwyr a Phobl Wedi'u Dadleoli) 1993(**1**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (4)(b) o reoliad 7-

(a) yn lle "the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales", rhodder "the Auditor General for Wales";

(b) yn lle "section 3(5)-(7) of the Audit Commission Act 1998", rhodder "section 14(4) and (9) of the Public Audit (Wales) Act 2004".

**4**.-(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer y diffiniad o "the auditor", ac yn ei le rhodder y canlynol -

" "the auditor" means, in relation to a local authority which is a local government body in Wales, as defined in section 12 of the Public Audit (Wales) Act 2004, the auditor appointed under section 13 of that Act to audit the accounts of the authority in accordance with Chapter 1 of Part 2 of that Act; and in relation to any other local authority, the auditor appointed under section 3 of the Audit Commission Act 1998 to audit the accounts of the authority in accordance with that Act;".

**5**.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygiadau Awdurdodau Addysg Lleol) 1998(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)(f) o reoliad 4, ar y dechrau, mewnosoder "in relation to a local education authority in England,".

(3) Ar ôl paragraff (1)(f) o reoliad 4, mewnosoder -

"(fa) in relation to a local education authority in Wales, the Auditor General for Wales;".

**6**.-(1) Diwygir Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000(**4**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (6) o reoliad 7-

(a) hepgorer y geiriau "i'r Comisiwn Archwilio" pan ymddangosant gynt, ac yn eu lle rhodder "i Archwilydd Cyffredinol Cymru"; a

(**1**) O.S. 1993/569, fel y'i diwygiwyd gan adran 54(2) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 a pharagraff 4(1) o Atodlen 4 iddi (p. 18).

(**2**) O.S. 1997/2862, fel y'i diwygiwyd gan adran 54(2) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 a pharagraff 4(1) o Atodlen 4 iddi (p. 18).

(**3**) O.S. 1998/880.

(**4**) O.S. 2000/2993 (Cy. 193), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/1390 (Cy. 140).

**3**.-(1) The Education (Grants) (Travellers and Displaced Persons) Regulations 1993(**1**) are amended as follows.

(2) In paragraph (4)(b) of regulation 7-

(a) for "the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales", substitute "the Auditor General for Wales";

(b) for "section 3(5)-(7) of the Audit Commission Act 1998", substitute "section 14(4) and (9) of the Public Audit (Wales) Act 2004".

**4**.-(1) The Local Authorities (Contracts) Regulations 1997(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2, omit the definition of "the auditor", and substitute, in the appropriate place, the following -

""the auditor" means, in relation to a local authority which is a local government body in Wales, as defined in section 12 of the Public Audit (Wales) Act 2004, the auditor appointed under section 13 of that Act to audit the accounts of the authority in accordance with Chapter 1 of Part 2 of that Act; and in relation to any other local authority, the auditor appointed under section 3 of the Audit Commission Act 1998 to audit the accounts of the authority in accordance with that Act;".

**5**.-(1) The Education (Publication of Local Education Authority Inspection Reports) Regulations 1998(**3**) are amended as follows.

(2) In paragraph (1)(f) of regulation 4, at the beginning, insert "in relation to a local education authority in England,".

(3) After paragraph (1)(f) of regulation 4, insert -

"(fa) in relation to a local education authority in Wales, the Auditor General for Wales;".

**6**.-(1) The National Health Service Bodies and Local Authorities Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2000(**4**) are amended as follows.

(2) In paragraph (6) of regulation 7-

(a) omit the words "Audit Commission" where they first appear, and substitute "Auditor General for Wales"; and

(**1**) S.I. 1993/569, as amended by section 54(2) of , and paragraph 4(1) of Schedule 4 to, the Audit Commission Act 1998 (c. 18).

(**2**) S.I. 1997/2862, as amended by section 54(2) of, and paragraph 4(1) of Schedule 4 to, the Audit Commission Act 1998 (c. 18).

(**3**) S.I. 1998/880.

(**4**) S.I. 2000/2993 (W. 193), as amended by S.I. 2004/1390 (W. 140).

(b) hepgorer y geiriau "adran 28(1)(d) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998" ac yn eu lle rhodder "adran 96B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998".

**7**.-(1) Diwygir Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(1)-

(a) ar ddiwedd is-baragraff (d), hepgor y gair "neu";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (dd), mewnosoder-

"; neu-

(e) bod y datgelu yn cael ei wneud i Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion unrhyw swyddogaeth ganddo neu gan archwilydd o dan Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

**8**.-(1) Diwygir (Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002(**2**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (5)(b) o reoliad 6-

(a) yn lle "y Comisiwn Archwilio i Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr", rhodder "Archwilydd Cyffredinol Cymru";

(b) yn lle "adran 3(5), (6) a (7) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998", rhodder "adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

**9**.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (4)(b) o reoliad 5-

(a) yn lle "y Comisiwn Archwilio i Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr", rhodder "Archwilydd Cyffredinol Cymru";

(b) yn lle "adran 3(5), (6) a (7) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998", rhodder "adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

**10**.-(1) Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(**4**) fel a ganlyn.

(**1**) O.S. 2001/2281 (Cy. 171).

(**2**) O.S.2002/438 (Cy. 56).

(**3**) O.S.2002/679 (Cy. 76).

(**4**) O.S.2002/1857 (Cy.181).

(b) omit the words "section 28(1)(d) of the Audit Commission Act 1998" and substitute "section 96B of the Government of Wales Act 1998".

**7**.-(1) The Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 5(1)-

(a) at the end of sub-paragraph (e), omit the word "or";

(b) at the end of sub-paragraph (f), insert-

"; or -

(g) the disclosure is made to the Auditor General for Wales for the purposes of any function of his or hers or of an auditor under Part 2 of the Public Audit (Wales) Act 2004".

**8**.-(1) The Education Standards Grants (Wales) Regulations 2002(**2**) are amended as follows.

(2) In paragraph (5)(b) of regulation 6-

(a) for "the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales", substitute "the Auditor General for Wales";

(b) for "section 3(5), (6) and (7) of the Audit Commission Act 1998", substitute "section 14(4) and (9) of the Public Audit (Wales) Act 2004".

**9**.-(1) The Education (Capital Grants) (Wales) Regulations 2002(**3**) are amended as follows.

(2) In paragraph (4)(b) of regulation 5-

(a) for "the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales", substitute "the Auditor General for Wales";

(b) for "section 3(5), (6) and (7) of the Audit Commission Act 1998", substitute "section 14(4) and (9) of the Public Audit (Wales) Act 2004".

**10**.-(1) The Education (Assembly Learning Grant Scheme) (Wales) Regulations 2002(**4**) are amended as follows.

(**1**) S.I. 2001/2281 (W. 171).

(**2**) S.I.2002/438 (W. 56).

(**3**) S.I.2002/679 (W. 76).

(**4**) S.I.2002/1857 (W.181).

(2) Ym mharagraff (6)(b) o reoliad 6-

(a) yn lle "y Comisiwn Archwilio i Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr", rhodder "Archwilydd Cyffredinol Cymru";

(b) yn lle "adran 3(5), (6) a (7) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998", rhodder "adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

15 Mawrth 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.

(2) In paragraph (6)(b) of regulation 6-

(a) for "the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales", substitute "the Auditor General for Wales";

(b) for "section 3(5), (6) and (7) of the Audit Commission Act 1998", substitute "section 14(4) and (9) of the Public Audit (Wales) Act 2004".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

15 March 2005

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Rhaglith

**RHAN 1 - Deddfiadau sy'n cynnwys pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

| | |
|---|---|
| Deddf Addysg 1996(**1**) | Adran 484 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**) a Deddf Addysg 2002(**3**). |
| Deddf Llywodraeth Leol 2000(**4**) | Adran 73(1). |

**RHAN 2 - Deddfiadau sy'n rhoi swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau 1999(5) (Erthygl 2 ac Atodlen 1)**

| | |
|---|---|
| Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**6**) | Adran 126(4) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**7**)) ac adran 128(1) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**8**)). |
| Deddf Diwygio Addysg 1988(**11**) | Adran 210 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1996(**12**) a Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**13**)) ac adran 232. |
| Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 | Adran 5 ac Atodlen 2, paragraff 7(2) a (3) (fel y'i diwygiwyd, yn achos paragraff (2), gan Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998(**9**), a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**10**)). |

(**1**) 1996 p.56.
(**2**) 1998 p. 31.
(**3**) 2002 p. 32.
(**4**) 2000 p.22.
(**5**) O.S. 1999/672.
(**6**) 1977 t.49.
(**7**) 2002 p. 17.
(**8**) 1990 p. 19.
(**9**) 1998 p. 18.
(**10**) 2004 p. 23.
(**11**) 1988 p.40.
(**12**) 1996 p. 56.
(**13**) 1992 p. 13.

## THE SCHEDULE

Preamble

**PART 1 - Enactments containing powers conferred upon the National Assembly for Wales**

| | |
|---|---|
| Education Act 1996(**1**) | Section 484 (as amended by the School Standards and Framework Act 1998(**2**) and the Education Act 2002(**3**). |
| Local Government Act 2000(**4**) | Section 73(1). |

**PART 2 - Enactments conferring functions which have been transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(5) (Article 2 and Schedule 1)**

| | |
|---|---|
| National Health Service Act 1977(**6**) | Section 126(4) (as amended by the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (**7**)) and section 128(1) (as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990(**8**)). |
| Education Reform Act 1988(**11**) | Section 210 (as amended by the Education Act 1996(**12**) and the Further and Higher Education Act 1992(**13**)) and section 232. |
| National Health Service and Community Care Act 1990 | Section 5 and Schedule 2, paragraph 7(2) and (3) (as amended, in the case of paragraph (2), by the Audit Commission Act 1998(**9**) and the Public Audit (Wales) Act 2004(**10**)). |

(**1**) 1996 c.56.
(**2**) 1998 c. 31.
(**3**) 2002 c. 32.
(**4**) 2000 c.22.
(**5**) S.I. 1999/672.
(**6**) 1977 c.49.
(**7**) 2002 c. 17.
(**8**) 1990 c. 19.
(**9**) 1998 c. 18.
(**10**) 2004 c. 23.
(**11**) 1988c.40.
(**12**) 1996 c. 56.
(**13**) 1992 c. 13.

| | |
|---|---|
| Deddf Addysg 1996 | Adrannau 489 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) a 569(1). |
| Deddf Addysg 1997(**1**) | Adran 39(3). |
| Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997(**2**) | Adran 3(2)(e) ac (f) a (3) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw. |
| Deddf Iechyd 1999(**3**) | Adran 31 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**4**)). |

(**1**) 1997 p.44.

(**2**) 1997 p.65.

(**3**) 1999 p.8.

(**4**) 2002 p. 17.

| | |
|---|---|
| Education Act 1996 | Sections 489 (as amended by the School Standards and Framework Act 1998) and 569(1). |
| Education Act 1997(**1**) | Section 39(3). |
| Local Government (Contracts) Act 1997(**2**) | Sections 3(2)(e) and (f) and (3) and all other powers enabling it in that behalf. |
| Health Act 1999(**3**) | Section 31 (as amended by the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002(**4**)). |

(**1**) 1997 c.44.

(**2**) 1997 c.65.

(**3**) 1999 c.8.

(**4**) 2002 c. 17.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091098-2

9 780110 910987

**£3.00**

W47/3/05 ON